# CAN DDUWIOL,

AM

# Ddychweliad y Mâb Afradlon;

ER

ANNOGAETH I DDYCHWELYD AT DDUW.

*Aberystwyth, Argraffwyd gan James a Williams.* 1811.

1 GWRANDEWCH, afradlon frodyr,
Sy'n ceisio troi, er cysur
Darllenwch yn y 'sgrythyr,
Mewn rhan o lyfr Luc,
Sef y bymthegfed bennod,
Cewch yno hanes hynod,
Neu Ddammeg wedi gosod,
Mawr gysur i ni ddug.

2 Ein Prynwr, dyddiwr dyddan,
Sy'n adrodd hon ei hunan,
Am ŵr da oedd yn rhyw fan,
Yn rhyfedd yn ei wlâd;
A dau fâb iddo'n tyfu,
A'r hynaf o'r rhai hyny,
Oedd foddlon yn sefydlu,
O fewn i deulu ei Dâd:

3 A'r i'angaf oedd mor anghall,
Ni chym'rai bwyll na deall,
I wrando cynghor diwall,
Yn ddiball ac yn dde';
Ond mynai gael ei rydd-did,
I ddilyn chwantau i'engctid,
Rheolau ei Dâd, ond odid,
Oedd ofid iddo fe.

4 Deisyfu wnaeth e'n ebrwydd,
Gael gan ei Dâd, ŵr Dedwydd,
Roi cyfran hoyw-lan hylwydd,
'Fai'n dygwydd iddo o'r da;
A'r hên ŵr da ei hunan,
A roddodd iddo gyfran;

Pwy dybiai'r âi fe 'rowan,
  Fyth druan i'r fath dra?
5 Un chwantan ydoedd yntau,
Yn caru pob pleserau,
Yn sydyn fe symudai,
  I barthau rhyw wlâd bell,
O ŵydd ei dâd oedd weddaidd,
A'i fwriad ar oferedd,
'Gael dilyn pob hydoledd,
  Neu wragedd yno'n well.
6 Mewn ennyd fer, yn union,
Fe wariodd ei holl foddion,
Ynghwmp'ni drwg gyfeillion
  Rai blinion yn ddi-ble;
Nes aeth mewn culni caled,
Ac arno mor gyfynged,
'Doedd un dyn roe 'ddo damaid,
  Na llamaid mewn un lle.
7 Yn hyn o gyfyng gyflwr,
Er mwyn cael gronyn swcwr,
Fe nesodd at ddinaswr,
  Yn llwfr am wellhâd;
A'i yru wnaed yn heini,
I fysg y môch i'w pesgi,
Dymun'sai gael ymlenwi,
  Ar fwyd y rhei'ny'n rhâd.
8 Ond pan na chai ei loned,
O'r sôg a'r seigiau caled,
Eisteddai i lawr i 'styried
  Mor ffoled f'enaid fu;
Sawl un, medd ef, o weision,
O eiddo 'nhâd, yr awr hon,
Sy'n cael eu llenwi'n llawnion,
  Ddigon yn ei dŷ:
9 A minnau yn newynu,
Trwy angeu bron a threngu,

OC 36229547

Mi godaf, âf gan hyny,
Dan gŵyno at fy Nhâd;
A d'wedaf wrtho wedi'n,
Gan ŵylo ar fy neulin,
Mi bechais yn dy erbyn,
Fel gelyn heb ddim gwa'd.
10 Nid wyf fi, gan hyny,
Mwy'n deilwng yn dy deulu,
Na'm galw mwy'n fâb i ti,
Na haeddu cael dy hêdd:
Gwna fi fel un o'th weision,
I wneuthur dy orchwylion,
Mi fyddaf i ti'n ffyddlon,
A boddlon hyd y bedd.
11 A chododd ryw ddiwrnod,
A'i dád a'i canfu'n dyfod,
A rhedodd i'w gyfarfod,
Yn hynod iawn ei hun;
Ar wddf y mâb fe syrthiodd,
O weled hwn fe ŵylodd,
Ac eilwaith fe'i cusanodd,
O'i wirfodd yn ei wŷn.
12 I'w weision fe orch'mynai
Ddwyn allan y wisg orau,
A diosg yr hên garpiau,
A'i wisgo'n oleu wnaed;
A rhow'd am un o'i bymbys,
Y fodrwy aur yn fedrus,
A phâr o 'sgidiau taclus,
Yn drefnus am ei draed.
13 A galwodd yn ddi-gelu,
Y tylwyth oll a'r teulu,
Dewch bawb i gyd-lawenu,
A gorfoleddu'n fawr;
Par'towch y llô pasgedig,
A moeswch ddawns a miwsig,

Can's ca'w'd y mâb colledig,
Daeth adre'n unig 'nawr.

14 Ni welwn yma'n eglur,
Wrthgiliad dyn wrth natur,
Mor bell yr aeth ar grwydyr,
Yn ddieithr oddiwrth Dduw;
Ni fyn ef 'chwaith ddychwelyd,
O'i gyflwr afian enbyd,
At Grist i 'mofyn bywyd,
Och! ddyn, mor ynfyd yw.

15 Ni welwn yma eilwaith,
Ffordd Duw, a'i ddoeth ragluniaeth,
Yn galw dynion diffaeth,
Anhywaith yn eu hôl,
Trwy anfon arnynt adfyd,
A thlodi yn yr Ysbryd,
I'w galw a'u dychwelyd,
O'u ffiaidd fywyd ffôl.

16 Ni welwn etto'n olau,
Drugaredd Duw yn y geiriau,
Mor barod yw i faddau
I'r dyn yn ddiau a ddel,
At Iesu Grist yn hollol,
Trwy fwriad edifeiriol,
Caiff hwn dderbyniad grasol,
A gresaw mawr heb gêl.

17 A gwelwn fath lawenydd,
Sydd yn y nefoedd ddedwydd,
Am bob dychwelwr newydd,
Fu'n benrydd yn y byd:
Mae mwy o orfoledd difyr,
Am droad un pechadur,
[illegible] chant o ryw broffeswyr;
Clywch gysur i chwi gyd.

*Dafydd Jones, o Gayo, a'i cânt.*

DIWEDD.